Swansea University
Prifysgol Abertawe
Medical School
Ysgol Feddygaeth

Mae pecyn eang a pharhaus o fesurau ar waith yn **Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe** er mwyn bodloni argymhellion Adroddiad 2017 Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. **Prosiect Profiad Gwaith Cymru Gyfan:** gall myfyrwyr Blwyddyn 11 a 12 wneud cais am dri diwrnod o brofiad gwaith gyda meddyg teulu lleol, gyda gweithdai myfyriol cyn ac ar ôl y profiad
2. **Prosiectau i uwch fyfyrwyr meddygaeth:** myfyrwyr meddygaeth yn cynllunio, yn cyflwyno ac yn gwerthuso prosiect addysgu er mwyn ysbrydoli darpar fyfyrwyr meddygaeth
3. **Prosiect e-fentora:** myfyrwyr meddygaeth o Brifysgolion Abertawe a Chaerdydd yn cynnig mentora darpar fyfyrwyr meddygaeth
4. **Diwrnodau rhagflas a gweithdai paratoi i ddarpar fyfyrwyr meddygaeth:** gan weithio mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu, Prifysgol Caerdydd a Thîm Ymgyrraedd yn Ehangach Prifysgol Abertawe
5. **Llwybrau at Feddygaeth o gyrsiau BSc penodol a gynigir gan Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe:** Gellir gwarantu cyfweliad ar gyfer rhaglen Meddygaeth Lefel Mynediad i Raddedigion Prifysgol Abertawe i fyfyrwyr ar y cyrsiau hyn sy'n bodloni gofynion academaidd penodol a nodir gan gyfarwyddwyr y rhaglen ac sy'n bodloni'r meini prawf mynediad gofynnol ar gyfer Meddygaeth Lefel Mynediad i Raddedigion. Ymhlith y cyrsiau sy'n cynnig y cyfle hwn ar hyn o bryd mae BSc Gwyddorau Meddygol Cymhwysol, BSc Geneteg Feddygol, BSc Biocemeg Feddygol, BSc Ffarmacoleg Feddygol a BSc Iechyd Poblogaethau a Gwyddorau Meddygol
6. **Cynnydd yn nifer y cyfweliadau:** Cynigir cyfweliadau ychwanegol i ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n bodloni'r meini prawf mynediad gofynnol ar gyfer Meddygaeth Lefel Mynediad i Raddedigion. Rhaid i bob ymgeisydd ar gyfer Meddygaeth Lefel Mynediad i Raddedigion sefyll Prawf Derbyniadau Ysgolion Meddygol i Raddedigion (GAMSAT). Caiff ymgeiswyr eu dewis i gael cyfweliad ar sail eu sgôr GAMSAT. Bydd y cyfweliadau ychwanegol hyn yn cael eu cynnig i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n sgorio ychydig islaw'r sgôr trothwy.
7. **Caiff cymhwysedd ar gyfer y lleoedd cyfweliad sy'n weddill ei bennu yn ôl ble mae'r myfyrwyr yn byw, i ba ysgol uwchradd yr aethant ac o ble y maent yn hanu:** Mae'r broses bresennol ar gyfer pennu cymhwysedd i gael cyfweliad ar gyfer meddygaeth yn defnyddio sgôr trothwy GAMSAT i nodi'r ymgeiswyr a berfformiodd orau. Os bydd llawer o ymgeiswyr yn ennill sgôr debyg, efallai na fydd modd pennu sgôr trothwy benodol felly defnyddir y sgôr GAMSAT sy'n rhoi sgôr trothwy sydd agosaf at y sgôr allweddol heb fod yn uwch na'r sgôr honno. Rhoddir blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n gwneud cais o Gymru ar gyfer y lleoedd sy'n weddill.

Nod y mesurau a ddisgrifir yma yw cynyddu nifer yr ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru a gaiff gyfweliad ar gyfer meddygaeth, heb leihau nifer y cyfweliadau sydd ar gael i ymgeiswyr nad ydynt yn byw yng Nghymru. Caiff pob ymgeisydd ei drin yn gyfartal yn y cyfweliad. Nid yw'r broses gyfweld yn ffafrio unrhyw ymgeisydd, nac yn gwahaniaethu yn ei erbyn, ar sail cefndir daearyddol, cymdeithasol nac economaidd, rhywedd, crefydd na chyfeiriadedd rhywiol.